P. Brunnock
Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi
Ty Draw Road
Llys-faen
CF23 6XL

07/07/2025

Annwyl P. Brunnock

**Ymweliad interim:** Mehefin 2025

Diolch i chi am eich cymorth yn ystod yr ymweliad interim â’r ysgol ar 18 a 19 Mehefin 2025. Roeddem yn gwerthfawrogi’r cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a’ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae’r ysgol wedi ymgymryd ag ef ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- Gynnal trafodaethau ag arweinwyr a staff am eu hunanwerthuso a’u gwaith gwella, a’u gwaith i wella darpariaeth ar gyfer medrau Cymraeg a digidol disgyblion
- Siarad â disgyblion a chlywed eu hadborth am yr ysgol
- Ymweld â sampl fach o wersi mewn pynciau ar draws y cwricwlwm
- Craffu ar sampl o waith disgyblion
- Craffu ar sampl fach o ddogfennau perthnasol yr ysgol
- Cynnal gweithgareddau craffu ar waith ac arsylwi gwersi ar y cyd ag arweinwyr a thrafod prif ganfyddiadau’r gweithgareddau hyn

## Ffocws yr ymweliad

### Pa mor dda y mae hunanwerthuso’n nodi’n fanwl unrhyw agweddau ar addysgu a dysgu y mae angen eu gwella?

Ers yr arolygiad craidd, mae’r ysgol wedi canolbwyntio’n fanwl ar fireinio ei phrosesau hunanwerthuso yn ymwneud ag addysgu a dysgu. Yn ystod yr ymweliad, roedd yn ddefnyddiol clywed sut mae arweinwyr wedi cydweithio â’i gilydd i ddatblygu prosesau cyfredol ar gyfer arsylwi gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith sy’n canolbwyntio’n fanylach ar gynnydd disgyblion ac agweddau penodol ar addysgu. Mae’r prosesau hyn yn

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu’r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

cynnwys cynnal mwy o weithgareddau ar y cyd i sicrhau ansawdd gwerthusiadau a datblygu ffurflenni newydd. Maent hefyd yn cynnwys arolygon defnyddiol o safbwyntiau disgyblion, sy'n canolbwyntio'n benodol ar y dulliau addysgegol sy'n cael eu hybu gan yr ysgol.

Wrth ddatblygu'r prosesau newydd hyn, mae arweinwyr wedi gweithio'n ofalus i gynllunio calendr o weithgareddau hunanwerthuso aliniedig ac er mwyn ceisio lleihau llwyth gwaith staff. Caiff y gwaith hwn ei ategu gan raglen o ddysgu proffesiynol i ddatblygu medrau gwerthuso arweinwyr, sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan arweinwyr canol yn benodol. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn teimlo eu bod yn triongli'r dystiolaeth y maent yn ei chasglu o weithgareddau hunanwerthuso yn well. Roeddent yn gallu siarad am enghreifftiau o agweddau penodol ar addysgu a dysgu y maent wedi'u nodi'n rhai sydd angen eu gwella a sut maent wedi ymgorffori'r rhain yn eu cynlluniau gwella.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i arweinwyr ystyried:

- Yn eu gweithgareddau hunanwerthuso, i ba raddau y mae arweinwyr yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae disgyblion yn dysgu a datblygu agweddau penodol ar eu medrau?

### I ba raddau y mae'r ysgol wedi cynyddu ystod y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ac ymarfer eu medrau Cymraeg a pha mor effeithiol yw'r rhain?

Yn ein trafodaethau, clywom fod cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth a dysgu am ddiwylliant Cymru yn flaenoriaeth allweddol i'r ysgol. Clywom am gyfranogiad disgyblion mewn digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol a chyfleoedd newydd i ddisgyblion arwain mentrau Cymraeg trwy'r 'Criw Cymraeg'. Nodom hefyd sut mae'r ysgol wedi cryfhau perthnasoedd â sefydliadau allanol, fel yr Urdd, trwy gynnal ei gystadlaethau coginio Cogurdd a Phoburdd a thrwy drefnu ymweliadau preswyl i Lan-llyn. Clywom am y gwaith i ddatblygu Eisteddfod yr ysgol fel digwyddiad diwylliannol ysgol gyfan i bob disgybl, gydag ystod o adrannau'n cynnig cystadlaethau â ffocws Cymreig. Clywom fod yr ysgol wedi dechrau cefnogi athrawon i gynnwys ymadroddion a gorchmynion Cymraeg yn eu gwersi.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i arweinwyr ystyried:

- Sut gall arweinwyr weithio'n strategol i ddatblygu'r agwedd hon ar waith yr ysgol ymhellach?
- Sut gall yr ysgol sicrhau bod yr holl staff yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol yn rhan o'r drefn ddyddiol a pha strategaethau y gellir eu defnyddio i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth?
- Sut gall yr ysgol ddatblygu gwerthfawrogiad disgyblion o hanes a diwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm i gryfhau dealltwriaeth disgyblion o gefndir yr iaith?

## I ba raddau y mae'r ysgol wedi cynyddu ystod y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ac ymarfer eu medrau digidol a pha mor effeithiol yw'r rhain?

Yn ystod ein hymweliad, clywom am y camau y mae arweinwyr wedi'u cymryd i ddatblygu cynllun i gynyddu ystod y cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm. Yn y sampl o waith, gwelom ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau digidol trwy ymchwilio, defnyddio meddwl cyfrifiadurol a chreu dogfennau PowerPoint neu bosteri. Clywom fod staff wedi cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol perthnasol yn ddiweddar a bod arweinwyr wedi llunio ystod o adnoddau ymarferol i gynorthwyo staff i gyflwyno tasgau digidol. Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y dysgu proffesiynol hwn ar arfer yn yr ystafell ddosbarth neu ddeilliannau disgyblion.


Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut bydd arweinwyr yn cryfhau datblygiad cynyddol medrau digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm trwy gynllunio strategol â ffocws a chyfleoedd dysgu proffesiynol?
- Sut bydd arweinwyr yn gwerthuso effaith y datblygiadau hyn ar addysgu a'r gwelliant ym medrau digidol disgyblion dros gyfnod?

Diolch i chi unwaith eto am eich holl gymorth wrth gynllunio a threfnu ein hymweliad. Dymunwn yn dda i chi â'ch datblygiadau yn y dyfodol.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6814611

Yn gywir



**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol